# CRONFA PROSIECTAU BACH AR GYFER MATERION TRAFNIDIAETH YN Y GYMUNED - THINK

Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Integredig i Drafnidiaeth ac Iechyd yn eich gwahodd i gyflwyno cais am grant sy'n ymwneud â rôl trafnidiaeth mewn creu cymuned iach.Rydym yn croesawu prosiectau arbrofol gan dimau rhyngddisgyblaethol/o sawl cefndir, o Gymru a'r tu hwnt, **ac rydym yn chwilio am gynnig sy'n dod â phobl o wahanol gefndiroedd ynghyd mewn partneriaethau (e.e. cymunedau, elusennau a'r trydydd sector, academyddion, byrddau iechyd, awdurdodau lleol) i gydweithio i gynorthwyo "cymuned sydd mewn angen" â "mater penodol sy'n ymwneud â thrafnidiaeth".**

**Mae grant gwerth hyd at £2000 ar gael fesul prosiect i gefnogi'r gweithgarwch. Byddwn yn dewis hyd at 4 prosiect i'w hariannu.**

**Gellir diffinio cymuned mewn angen** fel unrhyw gymuned sydd â phroblem sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, neu iechyd a lles, neu'r ddau. Er enghraifft, gallai fod yn gymuned ddaearyddol megis tref, pentref neu stryd, a/neu gymuned a ddiffinnir gan ddemograffeg gymdeithasol neu gefndir, er enghraifft pobl hŷn, plant, y gymuned LHDT+, a/neu a ddiffinnir yn ôl eu dulliau teithio (seiclwyr, cerddwyr ac ati).

**Gellir diffinio'r mater penodol sy'n ymwneud** â thrafnidiaeth fel un sy'n effeithio ar iechyd gan gynnwys anafiadau/marwolaethau (a achosir gan wrthdrawiadau), llygredd aer/sŵn, gwella teithio gweithredol, ynysu cymunedau, a lles cymunedol, neu gyfuniad o'r materion hyn. Gellir diffinio'r broblem fel rhywbeth megis ceisio gostwng terfynau cyflymder neu gysylltu cymunedau drwy lwybrau cerdded/beicio oddi ar y ffyrdd.

**Dylid defnyddio'r grant fel cam tuag at y nod**, er mwyn cael dealltwriaeth bellach am y mater trafnidiaeth, i'w ddiffinio'n fanylach a dechrau creu strategaethau neu gamau gweithredu sy'n gweithio tuag at liniaru neu leihau'r broblem. Gellir gwneud cais am gostau cyfalaf a chostau refeniw. Gellir defnyddio'r arian yn y prosiect felly tuag at gostau cynnal digwyddiadau a gweithdai, neu gasglu gwybodaeth er mwyn ceisio cyrraedd y nod.

Rhaid llunio adroddiad byr terfynol am y gweithgareddau a gynhaliwyd, sydd hefyd yn nodi'r camau nesaf sydd eu hangen a sut yr eir ati i gymryd y camau hynny.

Disgwylir y bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r prosiect fel y bydd yn haws i'r gymuned wneud cais am ragor o arian ar gyfer camau nesaf y prosiect. Ar ben y grant gwerth hyd at £2000, fe gewch gymorth y Rhwydwaith i hyrwyddo eich gwaith a byddwn yn gweithio gyda chi i ddod o hyd i ffynonellau cyllid pellach ac i wneud ceisiadau amdanynt fel bo'n briodol.

Bydd y prosiectau'n cael eu hasesu gan dîm y Rhwydwaith (Charles, Amy, Lucy) yn ogystal ag adolygwr arbenigol o'r tu allan i'r prif dîm, drwy bwyso a mesur y materion isod:

- I ba raddau y byddai'r prosiect arfaethedig yn helpu'r gymuned ddiffiniedig i ymdrin â'r mater trafnidiaeth
- I ba raddau y byddai'r prosiect arfaethedig yn gwneud gwahaniaeth i drafnidiaeth yn y gymuned honno,
- I ba raddau y byddai'r prosiect yn gwella iechyd y gymuned
- Pa mor realistig yw hi y byddai'r prosiect yn cyrraedd y nod hwnnw ac a ydy'n cynnig gwerth am arian.

**Llenwch y ffurflen isod a'i hanfon yn ôl i think@aber.ac.uk cyn y dyddiad cau, sef 30 Tachwedd 2022.**
Os hoffech drafod unrhyw syniadau fo gennych chi i'ch prosiect neu am fwy o fanylion, cysylltwch â'r Athro Charles Musselwhite chm93@aber.ac.uk

# CRONFA PROSIECTAU BACH AR GYFER MATERION TRAFNIDIAETH YN Y GYMUNED - THINK

Ceir hyd i'r cais ar-lein yn
https://think.aber.ac.uk/cy/cronfa-prosiectau-bach-ar-gyfer-materion-trafnidiaeth-yn-y-gymuned

| | |
|---|---|
| Enw Arweinydd y Prosiect | |
| Swydd Arweinydd y Prosiect ac enw'r sefydliad/cwmni | |
| Cyfeiriad Arweinydd y Prosiect | |
| Rhif ffôn Arweinydd y Prosiect | |
| Cyfeiriad e-bost Arweinydd y Prosiect | |
| Aelodau eraill y tîm a'u sefydliadau/cwmnïau | |
| Enw'r Prosiect | |
| Nodau'r prosiect (hyd at 300 gair) | |
| Manylion y bobl y mae'r prosiect cymunedol yn anelu at eu helpu (nifer yn y gymuned, manylion cefndirol y gymuned) (hyd at 300 gair) | |
| Disgrifiwch y broblem drafnidiaeth mae'r prosiect yn ceisio ei datrys (hyd at 1000 gair) | |
| Sut y bydd y prosiect hwn yn gweithio tuag at wneud gwahaniaeth i'r broblem hon? (uchafswm o 500 gair) | |
| Rhowch amserlen i'r gweithgareddau | |
| Cyfanswm yr arian y gofynnir amdano | |
| Rhowch restr mor fanwl â phosib o'r hyn rydych yn gwneud cais am gyllid amdano, gan restru pob eitem a darparu cyfiawnhad dros bob cost. Ceisiwch fod mor fanwl-gywir â phosib. | |